Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

## 10.00am 27 Gorffennaf 2023

## Cynhadledd Fideo

**Yn bresennol:**

Claire Bevan
Julia Evans
Chris Knight

**Hefyd yn bresennol:**

Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Kelly Davies, Prif Swyddog Gweithredu
Rachel Bowen, Cyfarwyddwr Polisi
Katie Holliday, Pennaeth Cyllid ac Adnoddau
Hayley Bufton, Ysgrifenyddiaeth

**TIAA:**

Helen Cargill

**Swyddfa Archwilio Cymru:**

Helen Goddard

**Ymddiheuriadau:**

David Powell

## 1 Cyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Powell. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi rhannu ei sylwadau â hi cyn y cyfarfod.

### i) Cofrestr Fuddiannau

Nododd y Cadeirydd ei bod yn gwneud gwaith i Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Byddai'r newid hwn yn cael ei nodi ar y gofrestr.

### ii) Cyngor a roddwyd i'r Comisiynydd neu ei staff ers y cyfarfod diwethaf

Dim i'w nodi.

## 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf (Ebrill 2023) a materion sy'n codi

Wrth gyfeirio at eitem 6, nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig sicrhau bod cynllunio corfforaethol yn cael ei gofnodi yn amserlen yr Archwiliad Mewnol yn dilyn penodi'r Comisiynydd newydd. Rhoddodd Helen Cargill sicrwydd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys.

Holodd Julia Evans a oedd unrhyw ddiweddariadau ar amserlennu'r sesiwn 'Exercise in a Box' (eitem 2). Nododd Pennaeth Cyllid ac Adnoddau y bwriad i beidio trefnu sesiwn hyfforddi 'Exercise in a Box' gan fod hyfforddiant seibr-ddiogelwch a chodi ymwybyddiaeth sylweddol eisoes wedi'u cynnal gyda staff. Yn lle hynny, byddai'n canolbwyntio ar drefnu sesiwn ar Ddeallusrwydd Artiffisial i staff gan fod hyn bellach yn fwy o flaenoriaeth oherwydd y datblygiadau mewn technoleg frys a'i heffaith ar ffyrdd o weithio.

Wrth gyfeirio at gamau tendro unigol (eitem 4, pwynt 3), soniodd Julia Evans a fyddai eu cynnwys yn y cofnodion yn ffordd arall o dynnu sylw at gamau gweithredu. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i gynnwys camau tendro unigol fel eitem sefydlog ar yr agenda yn yr adran datganiadau.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023.

## 3 Archwilio Mewnol – SICA

Cyflwynodd Helen Cargill yr adroddiad i'r Pwyllgor, a dywedodd nad oedd unrhyw ddiweddariadau sylweddol ers y cyfarfod blaenorol, ond cadarnhaodd fod trefnu gweithgarwch ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dywedodd Helen Cargill wrth y Pwyllgor y byddai'n dosbarthu dolen i weminar sydd ar y gweill ar ddiwylliant a chwythu'r chwiban. Roedd TIAA hefyd yn gwneud gwaith ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial, ond yn y camau cynnar iawn yr oedd hyn.

Holodd Chris Knight a oedd risg y byddai archwiliadau’n cael eu crynhoi i Chwarter 4. Nododd Helen Cargill y gellid addasu'r dyddiadau yn ôl yr angen. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau y byddai archwiliad effeithiolrwydd ARAC yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2024.

Fe wnaeth y Cadeirydd godi’r mater o sut y byddai Deallusrwydd Artiffisial yn effeithio ar wasanaethau archwilio yn y dyfodol. Dywedodd Helen Cargill nad oedd Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio’n ffurfiol mewn archwiliadau a gynlluniwyd, ond roedd TIAA yn edrych ar sut y gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i TIAA a nododd y sicrwydd y mae’r adroddiad yn ei roi i’r Pwyllgor.

## 4 Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio Manwl 2023

Cyflwynodd Helen Goddard Gynllun Archwilio gan Archwilio Cymru ar gyfer 2023-24, gan dynnu sylw at elfennau allweddol, gan gynnwys perthnasedd datganiadau ariannol a risgiau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Roedd cynllunio manwl wedi nodi dau faes risg allweddol:

- Rhoi cyfrif am Lesoedd IFRS16 a datgeliadau mewn perthynas â nhw ers iddo gael ei fabwysiadu gan FReM ar gyfer 2022-23.
- Y datgeliadau newydd sy’n ofynnol yn yr adroddiad taliadau ar ôl ychwanegu swydd newydd y Cyfarwyddwr Polisi at y Tîm Rheoli Strategol.

Gofynnodd Julia Evans pa ddull a ddefnyddiwyd â’r archwiliad TG gan fod TG yn cael ei is-gontractio i raddau helaeth i gwmni allanol. Dywedodd Helen Goddard fod trafodaethau wedi digwydd rhwng y tîm archwilio a’r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, yn ogystal â thrafodaethau gyda darparwr TG y Comisiynydd i asesu darpariaeth gwasanaethau.

Dywedodd Helen Goddard nad oedd unrhyw fater pryderus wedi codi yn ystod yr archwiliad, ond fe hysbysodd y Pwyllgor nad oedd hi wedi adolygu'r papurau archwilio eto.

Diolchodd Helen Goddard i’r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am ei hymatebion prydlon a defnyddiol i ymholiadau yn ystod yr archwiliad. Nododd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau fod yr archwiliad wedi bod yn ddidrafferth, gyda chymorth porth newydd ar gyfer rhannu dogfennau.

Cododd y Cadeirydd gwestiwn ar ran David Powell, a oedd eisiau gwybod sut mae gwaith Archwilio Cymru yn ystyried archwilio mewnol. Eglurodd Helen Goddard fod yr asesiad risg cyffredinol yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac os canfyddir unrhyw risgiau, cynhelir trafodaeth gyda’r archwilydd mewnol i benderfynu ar unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy’n ofynnol.

Dywedodd Helen Goddard wrth y Pwyllgor y byddai’r rhain yn cael eu gosod ym mis Medi.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio Manwl.

## 5 Archwilio Cymru - Ymholiadau Archwilio i'r unigolion sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli

Cyflwynodd Helen Goddard y llythyr cyflawn ar gyfer cytundeb ffurfiol a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y llythyr yn ffynhonnell sicrwydd ychwanegol ar gyfer yr archwiliad.

Cododd Chris Knight un sylw ynghylch twyll ac a ddylid sôn am ymdrechion allanol i dwyllo yn ogystal â rhai mewnol. Cadarnhawyd gan y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau a Helen Goddard nad oedd angen sôn am hyn gan nad oedd unrhyw ymdrech o dwyll allanol o fewn y cyfnod cyfeirio.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru a chadarnhaodd gymeradwyaeth y Pwyllgor.

## 6 Archwilio Cymru – Diweddariad Gorffennaf

Cyflwynodd Helen Goddard y papur, gan dynnu sylw at feysydd o ddiddordeb arbennig i'r Comisiynydd gan gynnwys gwaith ar adnodd data'r GIG a sesiwn arferion da ym mis Medi ar bwnc strategaeth ddigidol. Nododd Helen Goddard fod archwiliad Archwilio Cymru wedi'i gwblhau yn ystod y chwarter diwethaf ac y byddai'r defnydd o ddadansoddeg data yn yr archwiliad yn cael ei ailystyried y flwyddyn nesaf.

Holodd y Cadeirydd ar ran David Powell, a oedd eisiau deall effaith peidio â defnyddio dadansoddeg data yn yr archwiliad a'r rhesymau dros yr oedi cyn eu defnyddio. Eglurodd Helen Goddard nad oedd unrhyw effaith ar archwiliad 2022-23, ond ei bod hi'n gobeithio y byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliad 2023-24. Gofynnodd Julia Evans a oedd diffyg dadansoddeg yn ymwneud yn fwy ag effeithlonrwydd yr archwiliad yn hytrach na diffyg archwiliad. Eglurodd Helen Goddard fod yr archwiliad yn dal i fod yn gyflawn; roedd y dadansoddeg data yn adnodd i dynnu sylw at eitemau a oedd yn cynnwys cryn dipyn o risg yn hytrach na dewis sampl cyffredinol, felly byddai'n cefnogi gwella effeithlonrwydd. Roedd y gweithredu wedi cael ei ohirio oherwydd pwysau gwaith mewnol sy'n cystadlu â'i gilydd yn swyddfa'r Comisiynydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru a nododd y diweddariad a ddarparwyd.

## 7 Datganiad Llywodraethu

Nododd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau fod y Datganiad Llywodraethu wedi cael ei ddosbarthu a'i rannu ag aelodau i gael eu mewnbwn cyn y cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd amserlen recriwtio ar waith ar gyfer yr aelod newydd ARAC a fyddai'n gwybod am TG a seibr-ddiogelwch. Dywedodd y Prif Swyddog

Gweithredu wrth y Pwyllgor mai'r bwriad oedd hysbysebu yn yr Hydref gyda'r bwriad i'r aelod fod yn ei le ar gyfer y cyfarfod ym mis Ionawr 2024.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn ymwneud â datblygu'r datganiad llywodraethu, a nododd fod y dolenni yn y ddogfen yn arbennig o ddefnyddiol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r datganiad.

## 8 Cofrestr Risg Strategol

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr adroddiad crynodeb risg, gan roi trosolwg lefel uchel o'r newidiadau i'r gofrestr risg dros y chwarter blaenorol.

Mewn ymateb i sylw gan Chris Knight wrth gyfeirio at ddisgrifiad risg 3, amlinellodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau y cynlluniau ar gyfer rheoli cyllidebau dros y blynyddoedd nesaf.

Cododd y Cadeirydd sylw gan David Powell ynghylch disgrifiad risg 6 ac eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu bod y sgôr yn dibynnu ar ganlyniad yr ymarfer recriwtio presennol. Nodwyd bod Cyrff Hyd Braich eraill yn wynebu heriau recriwtio tebyg mewn marchnad gystadleuol.

Nododd y Cadeirydd ei dealltwriaeth o'r heriau a dywedodd nad oedd y naratif ynghylch lliniaru risg o bosibl yn adlewyrchu'n llawn yr holl weithgarwch a'r ymdrech sy'n digwydd, gydag aelodau'r tîm yn ymgymryd â thasgau ychwanegol.

Gofynnodd y Cadeirydd pa gynnydd a wnaed ar yr achrediad Sicrwydd Gwybodaeth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig wrth gyfeirio at ddisgrifiad risg 2. Esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau fod cynnydd da wedi'i wneud a bod tystiolaeth yn cael ei chasglu, gan nodi mai'r dyddiad cau mewnol ar gyfer cwblhau yw Mawrth 2024.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd wrth gyfeirio at ddisgrifiad risg 5, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu fod gwaith sylweddol wedi'i wneud ar y Cynllun Parhad Busnes. Nodwyd bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i brofi'r Cynllun Parhad Busnes mewn gwahanol ffyrdd, ac i gynnwys y staff ehangach yn y gweithgarwch hwn i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gwreiddio ar draws y sefydliad.

## 9 Y diweddaraf am y cynllun gwaith

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Polisi grynodeb o'r wybodaeth ddiweddaraf, gan amlinellu'r gwaith sydd ar y gweill a'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Nodwyd bod trafodaeth fanwl wedi digwydd yn y Diwrnod Datblygu ARAC diweddar ynghylch y cynllun gwaith, a oedd i fod i gael ei gyhoeddi ar y wefan cyn bo hir.

Holodd y Cadeirydd am fesurau allweddol a chanlyniadau'r cynllun gwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Polisi mai'r canlyniadau cyffredinol fyddai gweld newidiadau polisi ac ymarfer ar lawr gwlad a chadw ffocws ar faterion pobl hŷn.

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor, y gellid addasu'r amserlen a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwaith fel y bo'n briodol yn dibynnu ar brofiadau pobl hŷn, fel sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd blaenorol.

Dywedodd y Cadeirydd fod cysylltu'r cynllun gwaith yn ôl â'r gofrestr risg a materion yn y dyfodol a nodwyd yn Ymchwiliad Covid-19, newidiadau'r Comisiynydd a chadw staff, yn darparu cynnwys defnyddiol ac yn tynnu sylw at heriau posibl y flwyddyn nesaf.

Nododd y Pwyllgor y papur diweddaru.

## 10 Adroddiad Llywodraethu Chwarterol gan gynnwys y canlynol:

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu uchafbwyntiau'r adroddiadau chwarterol.

### i) Adroddiad Llywodraethu

Nodwyd bod un cais Rhyddid Gwybodaeth wedi dod i law ond nid oedd unrhyw ddata wedi ei gadw.

### ii) Adroddiad Iechyd y Sefydliad

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr Adroddiad.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredu nad oedd unrhyw bryderon ynghylch lefelau absenoldeb oherwydd salwch, na'r gallu i staff gymryd gwyliau blynyddol. Oherwydd maint y sefydliad, ychwanegwyd bod unrhyw gyfnodau absenoldeb hirach na'r cyfartaledd yn tueddu i newid y data, ond bod y digwyddiadau hyn yn brin ar y cyfan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am yr adroddiad cynhwysfawr a lefel y manylder a ddarparwyd er sicrwydd.

### iii) Adroddiad Cyfathrebu

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr Adroddiad, a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, fel trosolwg ar y chwarter. Nododd y Pwyllgor y sylw sylweddol yn y cyfryngau ar gyfer y chwarter hwn.

Nododd y Cadeirydd yr adroddiad cynhwysfawr a'r sicrwydd a ddarparwyd.

### iv) Adroddiad Ariannol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau yr Adroddiad i'r Pwyllgor gan dynnu sylw at effaith sylweddol pwysau chwyddiant a dyfarniadau costau byw ar gyllideb y Comisiynydd. Hysbyswyd y Pwyllgor bod cyllideb 2023-24 o dan bwysau a bod y cydbwysedd dewisol ar lefel is o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Cododd y Cadeirydd sylw gan David Powell, ynghylch y sefyllfa net tymor canolig, os oedd cynlluniau lliniaru ar waith a beth mae hyn yn ei olygu i risg sefydliadol. Cynhaliwyd trafodaeth fanwl a rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am gynllun ariannol tymor canolig y Comisiynydd a'r effaith sylweddol yr oedd dyfarniadau costau byw 2023-24 a gyllidebwyd ar gyfer staff yn 2023-24 yn ei chael ar gyllidebau'r Comisiynydd yn y dyfodol. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn cael cyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 ym mis Awst a chyllideb ddangosol 2025-26 ym mis Hydref.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am yr adroddiad cynhwysfawr a'r sicrwydd ynghylch y cwestiynau a godwyd.

### v) Cerdyn Sgorio Cytbwys

Nododd y Pwyllgor y Cerdyn Sgorio Cytbwys.
Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau Llywodraethu Chwarterol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor.

## 11 Diweddariad ar Seibergadernid (diweddariad ar lafar)

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad i'r Pwyllgor ar seibergadernid y Comisiynydd.

Oherwydd y risgiau diogelwch cysylltiedig, nid oes cofnod o'r drafodaeth am yr eitem hon.

## 12 Adolygiad o Bolisïau Allweddol: Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Gwrth-wyngalchu Arian

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau y polisi i'w gymeradwyo. Nodwyd mai polisi sefydlog oedd hwn gyda rhai mân newidiadau'n cael eu gwneud i adlewyrchu cyfrifoldebau'n well.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y derminoleg a ddefnyddir yn y polisi ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys Cynllun Ymateb Twyll ochr yn ochr â'r Polisi.

Cytunwyd y byddai'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau yn gwneud y newidiadau perthnasol ac yn ail-ddosbarthu'r polisi i'w gymeradwyo drwy e-bost.

## 13 Treuliau'r Comisiynydd

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrir yn y Gofrestr Dreuliau.

## 14 Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu y gofrestr i'r Pwyllgor.

Dywedodd Julia Evans y byddai cynnwys brasamcan o'r gwerth yn ychwanegiad defnyddiol. Cytunodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r gofrestr yn cael ei haddasu i gynnwys y wybodaeth hon.

Nododd y Pwyllgor yr eitem a restrir ar y Gofrestr ar gyfer y chwarter.

## 15 Unrhyw Fater Arall

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am gylchredeg adroddiad 'Adolygiad o Gomisiynwyr' diweddar Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu fod yr argymhellion yn cael eu cyfeirio'n bennaf at Lywodraeth Cymru a'u bod yn disgwyl am eu hymatebion i'r argymhellion. Byddai diweddariadau'n cael eu darparu i'r Pwyllgor wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

Diolchodd y Cadeirydd i Helen Goddard a Helen Cargill am eu cefnogaeth cyn iddynt adael y cyfarfod.

## 16 Adolygu'r cyfarfod, gan gynnwys trafodaeth ynglŷn ag eitemau i'w cynnwys ar yr agenda a ffocws cyfarfodydd yn y dyfodol

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y trafodaethau defnyddiol. Cytunwyd ei fod yn agenda ysgafnach o'i gymharu â'r cyfarfod blaenorol. Nodwyd bod y cyfathrebu parhaus rhwng cyfarfodydd yn fuddiol ac yn golygu nad yw sgyrsiau – yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â risgiau – yn cael eu hystyried yn y cyfarfod yn unig.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod wedi'i gadeirio'n effeithiol a'i fod wedi'i drefnu'n dda.

## 17 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Mawrth 26 Medi 2023 am 10:00am (MS Teams).